Derbyn

Maes Dysgu	Cefnogi	Abl	Sialens
Datblygiad Personol, Cymdeithasol ac Emosiynol	Mae'n gallu diffodd y cyfrifiadur ar amser priodol ("i helpu'r athrawes") gan ddeyfnyddio'r dull cywir o'i gau i lawr.	Defnyddio addysgu trwy gymorth cyfoedion i addysgu disgyblion eraill sut i argraffu gwaith a deall ble mae'r copi 'caled' ar bapur i'w gael.	Gall ymofyn eraill i rannu profiadau. Dangos i eraill sut i ddefnyddio elfennau sylfaenol y cyfrifiadur, y Crwydryn neu gamera digidol.
Cyfathrebu, Iaith a Llythrennedd	Gall ddarganfod llythrennau o'u henwau, rhan o'u henwau, neu'r lythyren gyntaf o'u henwau trwy ddefnyddio'r bysellfwrdd neu lun o'r bysellfwrdd.	Gall ddefnyddio llun o'r bysellfwrdd ar bapur i liwio'r llythrennau a fydd eu hangen i sillafu geiriau syml ac yna throsglwyddo'r sgil i'r bysellfwrdd.	Gall ddefnyddio'r bylchwr, bysell 'enter' a 'delete' i wahaniaethu rhwng geiriau, i'w symud ac i gywiro. Defnyddir y bysellau saeth i symud o gwmpas y testun.
Datblygiad Mathemategol	Gall reoli 'robot' (disgybl arall neu oedolyn) o amgykch ystafell trwy roi gorchmynion 'ymlaen' ac 'yn ôl'.	Gall reoli crwban llawr, e.e. y Crwydryn trwy ddefnyddio gorchmynion 'ymlaen' ac 'yn ôl' yn unig.	Gall ragfynegi a phrofi taith crwban llawr trwy gyfrwng gorchmynion 'ymlaen' ac 'yn ôl'.
Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r byd	Gall gopïo enghraifft parod i greu darlun o lun cyfan e.e. darlun o lun ty lle mae'n rhaid symud y ffenestri, drysau, tô ayb.	Gall ddefnyddio rhaglen gyfrifiadur syml lle mae angen symud gwrthrychau unigol i ddatblygu dealltwriaeth o safle gwrthrychau.	Gall ddefnyddio rhaglen sy'n cyflwyno sefyllfa benodol ar lefel syml, e.e. gwisgo 'Barnaby' yr arth yn briodol ar gyfer diwrnod braf, diwrnod gwlyb, diwrnod gwyntog, ayb.
Datblygiad Corfforol	Gall osod nodweddion o'r wyneb yn gywir trwy ddefnyddio rhaglen gyfrifiadurol.	Gall osod darnau o luniau'r corff yn briodol trwy ddefnyddio sgiliau 'llusgo a gollwng'.	Gall ddefnyddio banc o eiriau parod i labelu rhannau sylfaenol o'r corff.
Datblygiad Creadigol	Gall ddefnyddio 'stampiau' o luniau parod i greu patrwm adnabyddedig.	Gall ddefnyddio rhaglen beintio i greu llun sylfaenol o'i hunan.	Gall greu golygfa o lyfr cyfarwydd gan ddefnyddio cyfuniad o luniau a stampiau graffeg.